**Clwb Mynydda Cymru**
**Ysgrifennydd Gweithgareddau**
**Adroddiad 2024**

## Diolchiadau

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cytuno arwain teithiau; mae parodrwydd aelodau i ymgymryd â'r fath gyfrifoldeb yn hanfodol i lwyddiant y Clwb.

## Trefnu teithiau

Ers dechrau'r flwyddyn, trefnwyd **53** o deithiau amrywiol ar benwythnosau ac **11** ar ddyddiau Mercher. Mae hyn yn golygu ein bod wedi cynnig o leiaf un daith pob wythnos. Diolch yn arbennig i'r rhai sydd wedi arwain taith am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn argoeli'n ardderchog o ran dyfodol y Clwb.

## Teithiau blasu

Trefnwyd dwy daith flasu dan arweiniad Stephen Williams; y naill ar Foelydd yr Wyddfa ddechrau mis Mai a'r llall dros y ddwy Glyder ddiwedd mis Medi. Mae'n braf gallu adrodd bod rhai o'r 'blaswyr' wedi cael eu hysbrydoli i ymaelodi. Diolch i'r aelodau hynny a fu'n cynorthwyo a chroesawu'r rhai a ddaeth i flasu'r hyn y mae'r Clwb yn ei gynnig.

## Teithiau preswyl

### Yr Alban
Trefnwyd dwy daith breswyl i'r Alban; diolch yn fawr i Keith Roberts am eu trefnu.

- **Taith aeaf i Crianlarich.** Ym mis Chwefror, bu 23 o aelodau yn dringo nifer helaeth o gopaon rhwng ardal Glen Lyon yn y dwyrain a Glencoe yn y gorllewin. Dathlwyd camp Gerallt Pennant o gwblhau'r Munros gyda chriw teilwng yn dringo dau gopa Buchaille Etive Beag yn Glencoe.

- **Taith haf i Onich**. Mwynhaodd 19 o aelodau dywydd hafaidd dros ben ddiwedd mis Mai a llwyddwyd i esgyn nifer helaeth o gopaon. Yno, dathlwyd

camp Dwynwen Pennant o gwblhau dringo’r Munros drwy esgyn Carn Mor Dearg.

- Taith i **Hawes, Swydd Efrog** - aeth 19 o aelodau yno i fwynhau tywydd a theithiau ardderchog – diolch i Gwyn Williams am drefnu.

**Teithiau preswyl 2025**

Cynhelir taith i Crianlarich ar 8-15 Mawrth 2024 a thaith haf i’r Cairngorms. Byddir yn anfon rhagor o fanylion cyn hir.

**Penwythnos Mynydda, Gwersyll Glanllyn, 4-6 hydref 2024**

Defnyddiwyd peth o arian y gronfa a sefydlwyd er cof am Gareth Pierce i gefnogi cynnal cwrs mynydda ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 ac 18 oed.

**Gwefannau Cymdeithasol**

Rydym yn ddiolchgar i arweinyddion teithiau a’u cyd-fynyddwyr am anfon adroddiadau a lluniau o deithiau at Iolo ap Gwynn. Maen nhw’n cael eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol ac mae hynny’n hysbysebu effeithiol dros ben i’r Clwb.

Diolch yn fawr i holl aelodau’r Clwb am eu cydweithrediad.

Richard Roberts
Ysgrifennydd gweithgareddau
Hydref 2024
llanrug1956@gmail.com